**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 1 MAI 2018**

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth 1 Mai, 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd sy'n Ymadael)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Ron Davies a Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol), Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid), Uwch Reolwr (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Arweinwyr Tîm – Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'r Parchedig Maureen Roberts ar gyfer y weddi

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 2. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN

Fel Cadeirydd a oedd yn ymadael, cyflwynodd y Cynghorydd Brian Lloyd ei adolygiad o'r flwyddyn, yn ei hystod roedd y Cynghorydd a'i Gymar wedi bod yn falch iawn o gynrychioli Sir y Fflint mewn sawl digwyddiad dinesig teilwng, megis Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru a Gwobrau Balchder Sir y Fflint. Wrth drafod Wythnos Fusnes Sir y Fflint, mynegodd ei ddiolch i'r Cynghorydd Derek Butler, Kate Catherall a'r Arglwydd Barry Jones am eu help.

Diolchodd i'r rheiny a oedd wedi'i helpu wrth ei gefnogi i godi bron i £14,000 ar gyfer ei elusennau dewisol, sef Cymorth Canser Macmillan, Hosbis Plant Claire House a Barnados Cymru.

Wrth ddod i gasgliad, diolchodd i'r Prif Weithredwr a Thîm y Prif Swyddog, Arweinydd a gweithwyr y Cyngor am eu cefnogaeth ac i'r Aelodau am ei ethol. Mynegodd ei ddiolchgarwch i dîm Gwasanaethau'r Aelodau Dinesig am yr help yn ystod y flwyddyn a'i ddau gaplan. Fe aeth ymlaen i ddiolch i'r Is-Gadeirydd am ei gymorth, a dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd, ac fe dalodd deyrnged i'w wraig, Jean, am ei chymorth fel Cymar, rôl a oedd wedi'i mwynhau'n fawr iawn.

Yn ystod y cyfarfod, fe dalodd sawl Aelod deyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymadael am ei waith yn ystod y flwyddyn a'i lwyddiant wrth godi arian.

**3. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19, A'R CADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN Y SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts ac eiliodd y Cynghorydd Michelle Perfect y dylid penodi'r Cynghorydd Paul Cunningham yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

**PENDERFYNWYD:**

Ethol y Cynghorydd Paul Cunningham yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

Rhoddwyd Cadwyn y Swydd i'r Cynghorydd Cunningham gan y Cadeirydd sy'n ymadael a llofnododd ei Ddatganiad Derbyn y Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Cunningham weddill y cyfarfod.)

Yna cyflwynodd y Cadeirydd Fathodyn y Swydd fel Cadeirydd a oedd yn ymddeol i'r Cynghorydd Brian Lloyd a Bathodyn y Swydd fel Cymar a oedd yn ymddeol i Mrs Jean Lloyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Lloyd fel Cadeirydd sy'n Ymadael ac i'r Aelodau am eu cefnogaeth yn ei ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**4. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19, A'R IS-GADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Carol Ellis ac eiliodd y Cynghorydd Rita Johnson y dylid penodi'r Cynghorydd Marion Bateman yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Marion Bateman yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

Rhoddwyd Cadwyn y Swydd i'r Cynghorydd Bateman gan y Cadeirydd a llofnododd y Datganiad Derbyn y Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

## 5. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Cynigiodd y Cynghorydd Tony Sharps ac eiliodd y Cynghorydd Ray Hughes y dylai'r Cynghorydd Aaron Shotton gael ei benodi'n Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19. I gefnogi ei gynnig, cydnabyddodd y Cynghorydd Sharps y penderfyniadau anodd a wnaed yn ystod yr hinsawdd ariannol bresennol gydag arweinyddiaeth gref.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Aaron Shotton yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

## 6. ARWEINYDD Y CYNGOR I BENODI'R CABINET

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Aelodau am eu cefnogaeth wrth ei benodi'n Arweinydd y Cyngor am y 12 mis nesaf. Croesawodd y safiad unedig a phragmatig a wnaed gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn a gobeithiodd y byddai hyn yn parhau wrth wynebu heriau yn y dyfodol.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, nododd y Cynghorydd Aaron Shotton ei ddewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet a'u portffolios a fanylir arnynt isod.

| Aelod Cabinet | Portffolio |
|---|---|
| Aaron Shotton | Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid |
| Bernie Attridge | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Tai |
| Chris Bithell | Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| Derek Butler | Aelod Cabinet Datblygu Economaidd |
| Christine Jones | Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Billy Mullin | Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau |
| Ian Roberts | Aelod Cabinet Addysg |
| Carolyn Thomas | Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad |

## 7. MODEL BWRDD LLYWODRAETHWYR DIWYGIEDIG THEATR CLWYD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar gyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethwyr newydd, a oedd yn cynnwys saith Aelod etholedig a chwe phenodiad allanol, cyn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet.

Diolchodd i Arweinwyr y Grwpiau am eu cydweithrediad wrth enwebu dau aelod etholedig ar gyfer y ddwy swydd wag, i wasanaethu ochr yn ochr â phum aelod etholedig a oedd wedi dewis aros yn rhan o'r Bwrdd. Byddai'r aelodaeth lawn, gan gynnwys y chwe aelod cyfetholedig allanol gyda sgiliau priodol a oedd wedi'u recriwtio trwy'r broses, yn cael ei hadrodd i'r Cabinet.

Diolchodd i'r Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) a Chyfarwyddwyr Artistig a Gweithredol y Theatr am eu gwaith i gryfhau'r model busnes.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynigion ar gyfer Bwrdd Llywodraethwyr Theatr Clwyd, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo a'u hargymell i'r Cabinet.

## 8. Y BROSES YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd argymhellion o gyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018 yn dilyn adolygiad o'r broses ymgynghori ar y gyllideb.

Roedd yr adborth a gafwyd gan yr Aelodau yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i ddatblygu i gyfres o ofynion fel y nodwyd yn yr adroddiad ochr yn ochr â'r ymatebion. Gellir addasu siart lif Proses y Gyllideb Fesul Cam, gan ddefnyddio dull 2018/19, i'w defnyddio yn y dyfodol ac i helpu i ddangos cymhlethdodau'r broes a gofynion ymgynghori.

Oherwydd amseriad cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, dosbarthodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad diwygiedig gyda'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod hwnnw.

| Cyfeiriad yn yr Adroddiad | Diwygiad |
|---|---|
| 17 | Gweddarlledu cyfarfod cyllideb Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. |
| 19 | Adroddiad ar ddefnydd galw i mewn i'w gyflwyno i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mehefin. |
| 24 | Newid y gair 'dyfarniad' am 'penderfyniad'. |
| 1.05 | Brawddeg olaf y paragraff cyntaf o eiriad a awgrymwyd i gynnwys y geiriau 'neu holi cynigion'. |
| 1.06 | Paragraff newydd i gydnabod y cyfraniadau a wnaed i'r adolygiad gan nifer o Aelodau. |

Cytunodd yr Aelodau ar y penderfyniadau diwygiedig i gymeradwyo'r adroddiad diwygiedig a'r geiriad i'w cynnwys yn adran 16 y Cyfansoddiad.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Mackie, eglurwyd y byddai gofyniad 19 yn cael ei dynnu o'r adroddiad gan y byddai defnydd galw i mewn yn cael ei ystyried gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mehefin.

Gwnaeth y Prif Weithredwr sylw ar gynwysoldeb yr ymgynghoriad ar broses y gyllideb a'r cynnydd o ran y gyllideb ar gyfer 2019/20.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at ofyniad 18 ar gasgliad y cynigion a oedd wedi bod trwy broses y gyllideb a gofynnodd 'oni bai bod gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg' ei fod yn cael ei fewnosod i ystyried

unrhyw newid. O ran yr angen am gyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth, rhoddodd y Prif Weithredwr enghreifftiau o gamau adrodd rhwng pwyllgorau a chyfeiriodd at y protocol gwaith a allai gael ei ddatblygu. Nodwyd pwysigrwydd galw i mewn a byddai angen trafodaeth bellach ar hyn. Mewn ymateb i sylwadau pellach, roedd trosolwg o'r gyllideb gyfan yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a fyddai'n ystyried adroddiad ar yr Offeryn Asesu Integredig. Byddai Swyddogion yn rhoi ystyriaeth bellach i'r angen am ddealltwriaeth glir o ganlyniadau penderfyniadau am y gyllideb.

Mewn ymateb i awgrym y Cynghorydd Jones i weddarlledu pob cyfarfod pwyllgor gydag effaith ar drafodaethau o ran y gyllideb, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y cyfyngiadau ar yr offer gweddarlledu. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r cytundeb i weddarlledu cyfarfod cyllideb y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn cael ei ymestyn i gyfarfodydd eraill y Pwyllgor a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o broses y gyllideb fesul cam, p'run ai oedd yr holl Aelodau yn cael eu gwahodd ai peidio. Byddai gofyniad 19 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn, gan nodi'r 'bydd' y cyfarfod cyllideb blynyddol yn cael ei we ddarlledu (yn hytrach na 'gallai').

Mynegodd y Cynghorydd Heesom bryder hefyd ynglŷn â gofyniad 18 ar gasgliad y cynigion a dywedodd na ddylid gwahardd trafodaeth bellach a fyddai'n rhwystro'r broses ddemocrataidd. Teimlai'n sicr fod pryderon am rannu gwybodaeth yn cael sylw yn ystod yr eitem nesaf ar y rhaglen.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod gofyniad 18 yn berthnasol i gynigion lle'r oedd gwybodaeth lawn wedi'i rhannu, a oedd felly yn galluogi i'r Cyngor wneud penderfyniad er mwyn dod â'r drafodaeth ar yr eitemau hynny i ben. Er i hyn ganiatáu ar gyfer cynllunio a gweithredu, nid oedd yn atal cynigion newydd neu ychwanegol rhag cael eu codi.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Woolley o ran cymhariaeth rhwng gofynion 16 a 22, eglurodd y Prif Weithredwr y bwriad i sicrhau bod ymholiadau gan Aelodau yn agored yn ystod y camau cynnar er mwyn caniatáu ar gyfer amserlen y gyllideb.

Ceisiodd y Cynghorydd Peers eglurder o ran cyfranogiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar ôl pob cam o broses y gyllideb. Dywedodd y Prif Weithredwr, yn ychwanegol i Weithdai Aelodau, ymgynghorwyd â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Gam 1 y cynigion yn eu meysydd unigol ynghyd â rhai elfennau yng Ngham 2. Roedd trafodaethau yn ystod Cam 3 y cynigion yn fwy cymhleth oherwydd amseriad Setliad Terfynol Llywodraeth Leol.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a oedd modd i'r broses adlewyrchu cyfranogiad 'posib' Trosolwg a Chraffu i Gam 3 y cynigion. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y cynigion, ar y pwynt hwnnw, yn annhebygol o gynnwys materion portffolio dan gylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y cam terfynol hwn.

Wrth grynhoi, cydnabyddodd y Cynghorydd Aaron Shotton y pryderon ynglŷn â gofyniad 19 ar ddefnydd galw i mewn ond roedd yn fodlon y byddai hyn destun trafodaeth bellach gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) wybodaeth gefndirol ynglŷn â bwriad gofyniad 19 a'r goblygiadau ar broses y gyllideb.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Proses y Gyllideb Fesul Cam fel y nodir yn yr atodiad diwygiedig i'r adroddiad i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei gymeradwyo at ddibenion Ymgynghori ar y Gyllideb; a

(b) Bod adran 16 y Cyfansoddiad yn cael ei newid i'r geiriad a awgrymir yn yr atodiad newydd, gyda'r geiriad diwygiedig ar gyfer Gofyniad 19 ar weddarllediad cyfarfodydd.

## 9. RHANNU GWYBODAETH O FEWN Y CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar gyfres ddiwygiedig o egwyddorion ynglŷn â rhannu gwybodaeth o fewn y Cyngor i alluogi Aelodau a Swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau. Eglurodd bwysigrwydd deall yr egwyddorion a oedd wedi'u datblygu gan weithgor a chynnwys sefyllfaoedd enghreifftiol a safbwyntiau gwahanol. Roedd peth gwaith coethi wedi'i wneud yn dilyn ymgynghoriad gyda swyddogion ac Aelodau.

Wrth gymeradwyo'r argymhellion, siaradodd y Cynghorydd Heesom o blaid yr adroddiad.

Fel Cadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd cynigodd y Cynghorydd Rita Jones bod yr egwyddorion yn cael eu cymeradwyo i'w mabwysiadu o fewn y Cyfansoddiad.

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Jones enghraifft lle gallai preswylydd roi caniatâd ysgrifenedig i'w Aelod lleol drafod ei ddata personol gyda Swyddogion y Cyngor. Dywedodd y Prif Swyddog fod yr enghreifftiau sydd wedi'u hatodi i'r canllawiau yn adlewyrchu'r sefyllfa hon ac enghreifftiau eraill lle dylid diogelu gwybodaeth bersonol.

Diolchodd y Cynghorydd Marion Bateman i aelodau a swyddogion y gweithgor y bu'n ei gadeirio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r canllawiau i'w mabwysiadu i'r Cyfansoddiad.

## 10. MATERION CYFANSODDIADOL: PWYLLGORAU A CHYRFF MEWNOL

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a ddeliodd â materion hynny sydd angen penderfynu arnynt yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir, yn unol â rheol 1.1 (vii)-(xiv) Gweithdrefn y Cyngor. Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, pob un yn delio ag un penderfyniad oedd angen ei wneud a'r materion perthnasol i'w hystyried. Rhoddwyd ystyriaeth i bob adran a phleidleisio arnynt yn eu tro.

**(A) Penodi Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn caniatáu penodi'r canlynol: Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd; Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cyd-lywodraethu (ar gyfer Pensiynau), Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Safonau a chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo’r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Bod y Cyngor yn penodi’r Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Archwilio.
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Cydlywodraethu (ar gyfer Pensiynau)
Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor Safonau
Y chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu sydd wedi’u rhestru ym mharagraff 1.01

**(B) Penderfyniad ar faint Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod rhaid penderfynu ar faint bob pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. Amlinellwyd y ddarpariaeth ar gyfer maint y Pwyllgorau yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo’r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Dylai maint pob Pwyllgor fod yn unol â’r hyn a nodwyd ym mharagraff 1.03 yr adroddiad.

**(C) Cylch Gorchwyl Pwyllgorau a Dirprwyon Pensiwn**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ei bod yn ofynnol i’r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y pwyllgorau a benodwyd ganddo. Roedd cylch gorchwyl presennol y Pwyllgorau presennol fel y nodwyd yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo’r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.

**(D) Cydbwysedd Gwleidyddol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod yn rhaid i'r Cyngor benderfynu yn, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl, y Cyfarfod Blynyddol, ar ddyraniad seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'i diwygiwyd.

Roedd cyfanswm o 157 o seddi ar gyfer Cynghorwyr ar draws yr holl Bwyllgorau yn seiliedig ar y grŵp presennol o aelodau a dangoswyd hawl pob grŵp i seddi ym mharagraff 1.12 yr adroddiad. Gan na fu unrhyw newid o ran meintiau'r grwpiau, atodwyd y cyfrifiadau cydbwysedd gwleidyddol presennol i'w hystyried fel un o sawl datrysiad posibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at gyfyngiadau aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio ar wardiau aml-aelod fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth a'r mecanwaith a gytunwyd gan y Cyngor yn gyntaf oll i ddatrys yr enwebiadau hyn drwy drafodaethau rhwng Arweinwyr y Grwpiau. Os nad oedd modd cyflawni hyn, y cam nesaf oedd i'r swyddog priodol dderbyn yr enwebiad cyntaf a dderbyniwyd. Cynigodd y Cynghorydd Peers welliant fod unrhyw enwebiad yn cael ei asesu gan y Prif Swyddog i ddewis ymgeisydd yn seiliedig ar ei sgiliau, ac os oedd y ddau ymgeisydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol, bod y penderfyniad yn seiliedig ar y pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad lleol olaf.

Mynegodd y Prif Weithredwr bryder ynglŷn â chyfranogiad awgrymedig Prif Swyddogion yn y broses hon, a defnydd canlyniadau pleidleisio etholiadol at bwrpas gwahanol nad oedd wedi'i weld o'r blaen.

Rhannwyd y pryderon hyn gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) a oedd yn cofio ffyrdd llawer mwy traddodiadol o ddatrys y mater o enwebiadau gan wardiau aml-aelod ac fe awgrymodd arferion yn ystod y Cyfarfod Blynyddol blaenorol, megis bwrw coelbren neu daflu ceiniog, a oedd yn cael eu defnyddio'n aml i ddatrys sefyllfa pan fo dau ymgeisydd yn gyfartal mewn etholiad.

Wrth ddwyn y drafodaeth flaenorol i gof, cynigodd y Cynghorydd Aaron Shotton y byddai bwrw coelbren yn ddull llawer tecach na derbyn yr enwebiad cyntaf. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

Eglurwyd, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai hyn yn cael ei nodi yn y Cyfansoddiad ac yn yr achos cyntaf, byddai penderfyniad yn cael ei geisio drwy gytundeb gan Arweinwyr y Grwpiau. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylid dyrannu'r seddi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol (a'r rheolau ar aelodaeth o'r Pwyllgor Cynllunio); a

(b) Dylid diwygio'r Cyfansoddiad felly os yw dau Aelod o Ward Aml – Aelod yn cael eu henwebu i'r Pwyllgor Cynllunio, dylid dyrannu'r sedd:

- Yn yr achos cyntaf, drwy gytundeb rhwng y 2 Arweinydd Grŵp unigol;

- Os na fydd modd dod i gytundeb, bydd rhaid i’r Prif Swyddog ddewis o’r enwebiadau i benderfynu pa Gynghorydd fydd yn ennill y sedd.

**(E) <u>Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff, rhai ohonynt a oedd yn destun cyfyngiadau. Roedd tabl ym mharagraff 1.14 yr adroddiad yn amlinellu pa gorff oedd yn penodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y canlynol, ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attidge.

- Penodi’r Cynghorydd Dave Hughes yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd;
- Penodi’r Cynghorydd Rita Jones yn Gadeirydd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.
- Penodi’r Cynghorydd Sharps yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu; a
- Penodi’r Cynghorydd Wisinger yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Fel Arweinydd y Grŵp Cynghrair Annibynnol, sef ail grŵp mwyaf y Cyngor, cynigodd y Cynghorydd Peers welliant i alluogi i’w grŵp gael rhan decach o ddyraniadau swyddi Cadeiryddion ar bwyllgorau. Cynigodd y dylid penodi’r Cynghorydd Woolley yn Gadeirydd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd a’r Cynghorydd Rosetta Dolphin yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Dolphin. O'i roi i’r bleidlais, collwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, a eiliwyd gan y Cynghorydd Bithel, a chafodd ei gymeradwyo.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet. Dyrannwyd swyddi Cadeiryddion i’r grwpiau a oedd a lle ar y Cabinet yn gyntaf ac roedd yr hawl yn cael ei dalgrynnu i lawr i’r rhif cyfan agosaf. Cafodd y swyddi Cadeiryddion a oedd yn weddill eu dyrannu i grwpiau heb seddi ar y Cabinet, gan dalgrynnu i fyny i’r rhif llawn agosaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Aaron Shotton y canlynol, ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attidge.

| Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | Grŵp i Ddewis Cadeirydd |
|---|---|
| Cymuned a Menter | Llafur |
| Addysg ac Ieuenctid | Llafur |
| Adnoddau Corfforaethol | Ceidwadwyr |
| Yr Amgylchedd | Annibynwyr Newydd |
| Newid Sefydliadol | Y Gynghrair Annibynnol |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Annibynnol |

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers, darparodd y Prif Swyddog eglurhad ar y ddeddfwriaeth i sicrhau hawl deg o ran y swyddi

cadeiryddion a ddyrannir i grwpiau gwleidyddion heb swyddi Gweithredol, fel yr adlewyrchir yn atodiad yr adroddiad.

Galwodd y Cynghorydd Chris Dolphin am degwch ar draws y Cyngor a chynigodd welliant bod Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd yn cael ei ddyrannu i Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones a oedd o'r farn y dylid dyrannu'r swydd rhwng y ddau grŵp gwleidyddol lleiaf bob yn ail flwyddyn. O'i roi i'r bleidlais, collwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton, a chafodd ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Penodi Cadeirydd y Pwyllgorau canlynol (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):

- Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd – y Cynghorydd Dave Hughes
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd – y Cynghorydd Rita Johnson
- Pwyllgor Trwyddedu – y Cynghorydd Sharps
- Pwyllgor Cynllunio – y Cynghorydd Wisinger

(b) Bod y grwpiau canlynol yn Cadeirio'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellir:

| | | |
|---|---|---|
| Cymuned a Menter | - | Grŵp Llafur |
| Addysg ac Ieuenctid | - | Grŵp Llafur |
| Adnoddau Corfforaethol | - | Grŵp y Ceidwadwyr |
| Yr Amgylchedd | - | Grŵp yr Annibynwyr Newydd |
| Newid Sefydliadol | - | Grŵp y Gynghrair Annibynnol |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | - | Grŵp Annibynnol |

**(F) <u>Swyddogaethau Dewis Lleol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gytuno ar ran o'r fath o'r Cynllun Dirprwyo gan fod y Cyngor wedi penderfynu ei fod yn fater i'r Cyngor gytuno arno. Roedd hyn yn ymwneud â dewis lleol o swyddogaethau y gellir eu penderfynu naill ai gan y Cyngor neu'r Cabinet ac / neu swyddogion dynodedig. Cafodd tabl o Swyddogaethau Dewis Lleol ei gynnwys yn Rhan 3, Adran A, Tabl 3 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bithell y dylid cadarnhau'r Materion Dewis Lleol presennol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Dunbar.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Swyddogaethau Dewis Lleol presennol fel yr amlinellir yn y Cyfansoddiad.

**(G) Enwebu i Gyrff Mewnol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen yn cynnwys 7 Aelod. Nid oedd hwn yn Bwyllgor Sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr y Grwpiau. Argymhellwyd bod cyfansoddiad y Pwyllgor yn parhau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau.

**(H) Pwyllgor Safonau**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau a oedd disgwyl i'r Aelodau eu nodi.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cael eu nodi.

**(I) Penodiadau i Gyrff Allanol**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod aelodau wedi'u penodi i Gyrff Allanol ar gyfer tymor llawn y Cyngor yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2017, yn amodol ar unrhyw newid a gytunwyd arno gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn nodi bod yr unigolion a enwebir i Gyrff Allanol wedi'u penodi ar gyfer tymor llawn y Cyngor a phŵer y Prif Weithredwr i amrywio'r enwebiadau hynny (mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau).

**11. AMSERLEN O GYFARFODYDD**

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad ar yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer 2018/19.

**12. HYD Y CYFARFOD**

Dechreuodd y cyfarfod am 11am a daeth i ben am 12.45pm.

**13. PRESENOLDEB AELODAU O’R WASG A’R CYHOEDD**

Roedd un aelod o’r wasg a 12 aelod o’r cyhoedd yn bresennol.

**……………………………….**
**Y Cadeirydd**